

# Rhoi llais i bawb

Cefnogi Gweithrediaeth GIG Cymru a  
rhwydweithiau clinigol strategol i weithio mewn  
partneriaeth â'r trydydd sector

Papur trafod

Hydref 2023



Royal College  
of Physicians

Coleg Brenhinol  
y Meddygon (Cymru)

‘Peidiwch ag aros i gael gwybod. Mae’r fframwaith hwn yn ganiatâd i chi weithredu.’

*Fframwaith clinigol cenedlaethol: system iechyd a gofal sy’n dysgu*

Llywodraeth Cymru, Mawrth 2021

‘Pan fyddwch yn cynllunio gwelliannau neu newidiadau, gofynnwch i’r bobl sy’n defnyddio’r gwasanaethau. Siaradwch â’r bobl. Mae rheolwyr yn teimlo’n nerfus ynghylch gofyn. Maen nhw’n poeni na fydd disgwyliadau’n cael eu bodloni neu nad oes modd cyflawni’r gofynion. Peidiwch â phoeni, mae’r cyhoedd yn gallach nag ydych chi’n ei feddwl ... ac os ydyn nhw eisiau rhywbeth na allwch chi ei gyflawni, does dim amser gwell i egluro eich hun nag ar y dechrau.

‘Dechreuwch gyda’r [claf] a gweithio am yn ôl.’

*Gofynnwch iddyn nhw*

Y Sefydliad Rheoli Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Awst 2023

# Y cefndir a'r cyd-destun

Ar 4 Mai 2023, ymunodd dros 60 o bobl â gweithdy gydag arweinwyr clinigol cenedlaethol a rheolwyr rhwydwaith a gynhaliwyd gan grŵp colegau brenhinol a chyrff proffesiynol Cymru. Sefydlwyd y gweithdy i drafod nodau ac amcanion blwyddyn gyntaf Gweithrediaeth newydd GIG Cymru a'i rhwydweithiau clinigol strategol (SCNs). Diolch o galon i Mark Dickinson, cyfarwyddwr rhwydweithiau a chynllunio'r Gweithrediaeth, a gyflwynodd yr agenda a chau'r gweithdy.

Nod y gweithdy hwn oedd dod â'r rheini a fyddai'n ymwneud â'r rhwydweithiau clinigol a'r rhaglenni cenedlaethol at ei gilydd i wneud y canlynol:

- > deall sut y gall y trydydd sector gyfrannu mewn ffordd ystyrlon at waith yr SCNs
- > trafod sut gall yr SCNs gyfrannu at brosesau cynllunio'r bwrdd iechyd
- > dechrau'r broses o rannu arferion da rhwng rhwydweithiau sefydledig a rhwydweithiau mwy newydd
- > ystyried sut beth fyddai blwyddyn gyntaf lwyddiannus i Weithrediaeth GIG Cymru.

Yn y pen draw, roeddem am archwilio rôl y trydydd sector, colegau brenhinol a chyrff proffesiynol o ran cefnogi arweinwyr clinigol i adeiladu SCNs effeithiol a all ddal byrddau iechyd i gyfrif wrth gynllunio a darparu gwasanaethau o ansawdd uchel.

Mae ein papur trafod ym mis Ebrill 2023, *Sbarduno newid gyda'n gilydd*, yn argymhell y dylai'r Weithrediaeth wneud y canlynol:

- > **rhannu cyfrifoldebau arwain** – sicrhau bod rhwydweithiau cenedlaethol newydd yn cael eu harwain gan glinigwyr sy'n gweithio gyda chynrychiolwyr trydydd sector
- > **rhoi llais i bawb** – datblygu dull partneriaeth fel bod y trydydd sector a chleifion yn cymryd rhan yng ngweithrediadau'r GIG
- > **sicrhau nad oes unrhyw gyflwr iechyd yn cael ei adael ar ôl** – gweithredu trefniadau llywodraethu cyson a rhoi cefnogaeth gynhwysfawr i raglenni ar draws pob rhwydwaith.
- > **cydnabod bod gwybodaeth yn arf** – cyhoeddi manylebau gwasanaeth a llwybrau triniaeth lleol ar-lein mewn canolfan ganolog, gan wneud taith y claf yn haws ei deall.
- > **dysgu gan bwyllgorau'r Senedd** – cyhoeddi cynlluniau gwaith a phapurau cyfarfodydd ar-lein mewn ffordd hygyrch, agored a thryloyw.

Roedd *Sbarduno newid gyda'n gilydd* yn trafod pwysigrwydd y cyntaf o'r pum argymhelliad hyn: **rhannu cyfrifoldebau arwain**. Fe wnaethom alw ar bob SCN a phob rhaglen genedlaethol yn y Weithrediaeth i sefydlu grŵp arwain sy'n cynnwys rheolwr/cyfarwyddwr rhwydwaith, arweinydd clinigol ac arweinydd trydydd sector. Gwnaethom drafod sut gall y trydydd sector yng Nghymru ychwanegu gwerth aruthrol at waith GIG Cymru. Mae llawer o'n sefydliadau'n darparu gwasanaethau sy'n delio'n uniongyrchol â phobl, ac rydym hefyd yn datblygu syniadau ac argymhellion polisi sy'n seiliedig ar arferion da ac y gellir eu rhannu'n ehangach. Rydym yn cynrychioli miloedd o gleifion, teuluoedd a gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd a gofal ledled Cymru. Gallwn gefnogi sefydliadau'r GIG i wella safonau clinigol a mynd i'r afael â phwysau strategol ehangach drwy weithio mewn partneriaeth â chlinigwyr a gwrando ar lais y rheini â phrofiad go iawn.

Mae'r papur hwn yn edrych yn fanylach ar yr ail o'n hargymhellion gwreiddiol: **rhoi llais i bawb** wrth redeg y GIG.

# Argymhellion

## Dylai llywodraeth Cymru wneud y canlynol:

- > dangos ymrwymiad gwirioneddol a gweladwy i'r dull 'iechyd ym mhob polisi' drwy gyflwyno asesiadau o'r effaith ar iechyd cyn gynted â phosibl
- > creu cronfa arloesi o fewn y Weithrediaeth sy'n caniatáu cyllido prosiectau cenedlaethol lefel uchel, cymharol isel eu cost, sy'n strategol bwysig
- > cyhoeddi cynnydd yn erbyn argymhellion yr adolygiad seneddol o iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, a chymau gweithredu Cymru Iachach a Chymru Iachach ymhen dwy flynedd
- > cynnal sgwrs genedlaethol â phobl Cymru i gydgyhyrchu gweledigaeth ddiwygiedig ar gyfer dyfodol gwasanaethau iechyd a gofal, gan fabwysiadu dull cydweithredol a rhanbarthol o gynllunio a darparu gwasanaethau lle bo hynny'n briodol
- > monitro a gwerthuso llwyddiant Gweithrediaeth y GIG yn rheolaidd dros y 3 blynedd nesaf i benderfynu a yw'n cyflawni gweledigaeth Cymru Iachach
- > gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu set o fetrigau perfformiad i wella atebolrwydd a chomisiynu gwerthusiad annibynnol o weithgarwch y Weithrediaeth ar ôl 5 mlynedd.

## Dylai Gweithrediaeth GIG Cymru:

- > mapio ac egluro system newydd GIG Cymru mewn ffordd glir a hygyrch, gan gynnwys sut bydd yn gweithio gyda'r Swyddfa Genedlaethol newydd ar gyfer Gofal Cymdeithasol, byrddau partneriaeth rhanbarthol a chyrrff perthnasol eraill
- > mynd i'r afael â'r anghysondeb wrth wneud penderfyniadau ar draws y Weithrediaeth, a datblygu gweledigaeth strategol y gall pob rhwydwaith a rhaglen ymrwymo iddi
- > annog grwpiau arwain yr SCN i ddilyn y cyngor ar weithio mewn partneriaeth sydd yn y papur hwn
- > creu canolfan wybodaeth mynediad agored ar-lein, lle gellir cyhoeddi manylebau gwasanaeth, llwybrau triniaeth lleol, cynlluniau gweithredu, papurau cyfarfod a galwadau am dystiolaeth mewn un lle ar gyfer pob rhwydwaith a rhaglen
- > rhoi gwybod i fyrrdau iechyd, ymddiriedolaethau'r GIG, rhanddeiliaid allanol a'r cyhoedd beth yw ei rôl a sut y bydd yn gwella canlyniadau iechyd.

# Dylai rhwydweithiau clinigol strategol wneud y canlynol:

## Gweithio gyda ...partneriaid allanol

- > datblygu dull partneriaeth wirioneddol ar gyfer dylunio gwasanaethau
- > galluogi amrywiaeth eang o leisiau i gymryd rhan drwy adeiladu cymunedau ymarfer cynhwysol ac amlbroffesiwn, gydag amser sesiwn wedi'i ariannu ar gyfer gweithwyr iechyd proffesiynol sy'n gweithio ar draws gofal sylfaenol ac eilaidd
- > cefnogi a hwyluso'r trydydd sector i ddarparu gwerth ychwanegol.

## Gweithio gyda ... y GIG ehangach

- > blaenoriaethu perthnasoedd da gyda byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG
- > egluro sut bydd y Weithrediaeth newydd yn rheoli perfformiad cyrff cyflawni, o ystyried y trefniadau llywodraethu presennol ar gyfer GIG Cymru
- > ymrwymo i esblygiad, nid chwyldro.

## Gweithio gyda... ein gilydd

- > nodi meysydd gwaith trawsbynciol sy'n effeithio ar waith yr holl SCNs
- > ystyried sut y bydd SCNs yn rhyngweithio ac yn gweithio'n effeithiol gyda rhaglenni a byrddau cenedlaethol, yn ogystal â chyfarwyddiaethau eraill yng Ngweithrediaeth y GIG
- > sefydlu fforwm rhwydweithiau clinigol Cymru gyfan.

# Canfyddiadau'r gweithdy

## Prif themâu

Yn ystod y gweithdy ar 4 Mai 2023, fe wnaethom nodi tri maes allweddol i rwydweithiau eu hystyried:

### Gweithio mewn partneriaeth

- Mae sefydliadau trydydd sector yn dod ag arloesi, arbenigedd, profiad ac adnoddau i'r bwrdd, gan gynnig persbectif strategol a dull cydweithredol.

### Gweithio system

- Dylai rhwydweithiau gael cynrychiolaeth gofal sylfaenol a chymunedol, gan symud oddi wrth ddull arbenigol o gynllunio a darparu gwasanaethau mewn ffordd fwy cytbwys.

### Cydweithio

- Ni fydd rhaglenni gwaith a rennir yn digwydd drwy ddamwain. Dylai rhwydweithiau a rhaglenni cenedlaethol gytuno ar themâu cyffredin a meysydd o ddiddordeb a mynd ati'n rhagweithiol i gydweithio â'i gilydd a chyda sefydliadau'r trydydd sector.

'Bydd y Weithrediaeth yn darparu arweinyddiaeth gref a chyfeiriad strategol gan alluogi, cefnogi a chyfarwyddo'r GIG yng Nghymru, pan fo angen, i drawsnewid gwasanaethau. Bydd yn cyflawni hyn yn unol â blaenoriaethau a safonau cenedlaethol drwy gryfhau arweinyddiaeth a chefnogaeth genedlaethol ar gyfer gwella ansawdd, gan ddarparu cyfeiriad mwy canolog i sicrhau dull cyson a theg o gynllunio cenedlaethol a rhanbarthol sy'n seiliedig ar ganlyniadau. Bydd hefyd yn galluogi trefniadau rheoli perfformiad cryfach, gan gynnwys y gallu i herio a chefnogi sefydliadau nad ydynt yn gweithredu yn ôl y disgwyl.' – [Mandad llywodraeth Cymru i Weithrediaeth GIG Cymru 2023–24](#)

## Y camau nesaf

### Rhwydweithiau yn gweithio gyda ... partneriaid allanol

- > **Datblygu dull partneriaeth wirioneddol ar gyfer dylunio gwasanaethau** Ochr yn ochr ag arweinydd rheoli, bydd disgwyl i arweinwyr clinigol gymryd yr awenau – gan weithio gyda chydweithwyr i bennu blaenoriaethau, datblygu ffyrdd newydd o weithio a mynegi gweledigaeth genedlaethol ar gyfer dyfodol eu rhwydwaith. Dylent wella atebolrwydd drwy estyn allan at sefydliadau sy'n cynnig arbenigedd polisi annibynnol a phrofiad bywyd a gwahodd y trydydd sector i fyrdau rhwydwaith a thimau arwain.

Mae mudiadau gwirfoddol, cymunedol a mentrau cymdeithasol (VCSE) yn dod ag arloesi, arbenigedd, profiad ac adnoddau i'r bwrdd.

'Nid hwyluso llais y claf yn unig y mae'r trydydd sector. Gallwn wneud llawer iawn mwy. Rydym yn dod ag arbenigedd i'r bwrdd a gallwn fod yn bartner dibynadwy ar gyfer cyflawni a gwneud penderfyniadau. Gyda pherthynas sy'n seiliedig ar barch, gallwn gydweithio a gyrru pethau ymlaen. Mae'n ymwneud â gonestrwydd, bod yn agored a dod ynghyd fel cymuned.' – arweinydd yn y trydydd sector

- > **Galluogi amrywiaeth eang o leisiau i gymryd rhan drwy adeiladu cymunedau ymarfer cynhwysol ac ambroffesiwn, gydag amser sesiwn wedi'i ariannu ar gyfer gweithwyr ieuchyd proffesiynol sy'n gweithio ar draws gofal sylfaenol ac eilaidd:** Dylai grwpiau arwain yr SCN ei gwneud yn hawdd i grwpiau cleifion llai a'r gymuned glinigol ehangach fod yn rhan o'u gwaith, cyfrannu at bennu blaenoriaethau a chynlluniau gwaith, a dylanwadu ar benderfyniadau. Dylid cyhoeddi darnau newydd o waith gyda galwad i'r cyhoedd am dystiolaeth, yn yr un modd ag y mae pwyllgorau'r Senedd.

Dylai rhwydweithiau clinigol a rhaglenni cenedlaethol gyhoeddi eu blaengynlluniau gwaith ar-lein. Dylai gwybodaeth am sut i ymgysylltu â darnau unigol o waith (e.e. datganiadau ansawdd, manylebau gwasanaeth) yn ogystal â manylion cyswllt grwpiau arwain, grwpiau cyfeirio clinigol a grwpiau gorchwyl a gorffen fod yn hygyrch, yn agored ac yn dryloyw. Dylai rhanddeiliaid a sefydliadau allanol allu dewis yn rhwydd sut a phryd maen nhw'n ymgysylltu â darnau penodol o waith. Dylid cyhoeddi papurau cyfarfodydd ymlaen llaw a'u rhannu â holl aelodau'r rhwydwaith, ac yna eu rhoi ar-lein ar ôl y cyfarfod. – *Sbarduno newid gyda'n gilydd*

- > **Cefnogi a hwyluso'r trydydd sector i ddarparu gwerth ychwanegol:** Mae llawer o sefydliadau allanol yn darparu gwasanaethau ac yn darparu cyllid ar gyfer staff y GIG a gofal cymdeithasol. Mae eraill yn cynnal archwiliadau neu'n rheoli rhaglenni achredu. Mae llawer o sefydliadau mewn sefyllfa dda i eirioli dros y rheini sydd â phrofiad byw, yn ogystal â hwyluso a chefnogi eu cyfranogiad – a fydd yn arbennig o bwysig wrth i'r SCNs ddechrau dylunio Mesurau Profiad a Adroddir gan Glaf (PREMs) a Mesurau Canlyniad a Adroddir gan Glaf (PROMs) i fonitro effeithiolrwydd gwasanaethau. Gall sefydliadau allanol ddarparu arbenigedd a chapasiti gwerthfawr mewn cyfnod o ansicrwydd ariannol a phrinder staff.

Ni ddylid eithrio'r trydydd sector; dylai fod yn llais wrth y bwrdd, gan ddod â phersbectif gwahanol.

'Yn aml, gweithredu yw'r rhan anoddaf o'r hyn a wnawn, ac mae llawer o hynny oherwydd prinder gweithlu sydd ond yn debygol o waethygu. Gallai'r trydydd sector fod yn adnodd buddiol sydd heb ei gyffwrdd: ar gyfer y gweithlu, syniadau ac ar gyfer dylunio gwasanaethau. Pa mor fentrus ydyn ni? Po fwyaf mentrus ydyn ni, y mwyaf yw'r potensial.' – arweinydd clinigol

## Rhwydweithiau'n gweithio gyda ... y GIG ehangach

- > **Blaenoriaethu perthasoedd da gyda chyrrff cyflawni'r GIG:** Dylai SCNs anelu at ddylanwadu ar brosesau cynllunio byrddau ieuchyd ac ymddiriedolaethau. Dylai estyn allan at uwch arweinwyr y GIG fod yn flaenoriaeth gynnar (gan gynnwys cyfarwyddwyr cynllunio, cyllid a'r gweithlu) i feithrin perthasoedd sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch at ei gilydd. Ni fydd strategaethau a pholisïau cenedlaethol yn cyflawni dim os nad ydynt yn eiddo i'r timau corfforaethol a chlinigol sy'n eu hariannu a'u darparu. Bydd yr SCNs yn eistedd mewn gofod rhwng llywodraeth Cymru a GIG Cymru, a rhaid iddynt ddefnyddio eu lle yn y system i asesu a monitro cynnydd cynlluniau tymor canolig integredig. Rhaid i gyfarwyddwyr meddygol byrddau ieuchyd ac ymddiriedolaethau gydnabod pwysigrwydd y rolau arwain hyn a sicrhau amser wedi'i neilltuo i glinigwyr sy'n ymgymryd â rolau cenedlaethol.

'Mae clinigwyr yn gwerthfawrogi dull gweithredu cyson sy'n cael ei arwain yn genedlaethol. Mae'n ein galluogi i herio ein byrddau iechyd i ddarparu gwasanaethau priodol.' – arweinydd clinigol

- > **Egluro sut bydd y Weithrediaeth newydd yn rheoli perfformiad cyrff cyflawni, o ystyried y trefniadau llywodraethu presennol ar gyfer GIG Cymru** Mae byrddau iechyd yn gyrff corfforaethol eu hunain. Dylai Gweithrediaeth y GIG nodi'n union sut a pha bwerau sydd ganddi i 'gyfarwyddo' newid mewn gwasanaethau, a dylai ei harweinyddiaeth weithio gyda byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau i ystyried sut beth fyddai 'darparu mwy o gyfarwyddyd canolog' mewn termau ymarferol. Dylai llywodraeth Cymru ystyried sut mae fframwaith cynllunio GIG Cymru yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd gan fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau, pa welliannau y gellid eu gwneud i'r broses gynllunio i sicrhau bod blaenoriaethau cenedlaethol sy'n cael eu gyrru gan ddata yn cael eu cyflawni'n gyson ac ar y cyd, a sut gellid gwella atebolrwydd. Sut mae'r system yn mesur a yw Cynlluniau Tymor Canolig Integredig wedi cael eu cyflawni mewn ffordd effeithiol sy'n gwella canlyniadau i gleifion a'r boblogaeth?

'Mae cymaint o ddyblygu o ran ymdrech gyda'r Cynlluniau Tymor Canolig Integredig; maen nhw'n aml yn debycach i strategaethau – neu restrau siopa – na chynlluniau cyflawni manwl. Gallai'r Weithrediaeth hwyluso gweithio gyda byrddau iechyd i wneud eu swyddi'n haws, a chyflwyno mwy o gysondeb a lleihau amrywiadau wrth gynllunio gwasanaethau.' – arweinydd clinigol

'Mae angen i ni feddwl am sut gallai'r rhwydweithiau fwydo i mewn i'r broses Cynllun Tymor Canolig Integredig, a phennu blaenoriaethau drwy weithredu ar y cyd. Sut gallwn ni ddefnyddio data, prosesau adolygu gan gymheiriaid, archwilio ac ymchwil i lywio cynlluniau cyflawni, sbarduno perfformiad a gwella atebolrwydd?' – arweinydd clinigol

- > **Ymrwymo i esblygiad, nid chwyldro:** Ni ddylid cael dull 'chwalu a disodli' ar gyfer sefydlu'r SCNs newydd, yn enwedig lle mae gwersi i'w dysgu gan hen fentrau a rhaglenni llwyddiannus y gellir eu datblygu a'u gwreiddio yn y strwythurau newydd.

## Rhwydweithiau'n gweithio gyda... ei gilydd

- > **Nodi meysydd gwaith trawsbynciol sy'n effeithio ar waith yr holl SCNs** Nid yw themâu fel atal, anghydraddoldebau, gofal integredig, casglu data ac iechyd digidol yn benodol i glefydau na chyflyrau. Dylai'r SCNs ddynodi arweinwyr penodol ar eu byrddau rhwydwaith a fydd yn cydweithio â'i gilydd a phartneriaid yn y trydydd sector i fynd i'r afael â'r 'problemau drwg' yma. Bydd rhannu profiadau a gwersi a ddysgwyd ar draws SCNs yn hanfodol i newid y system yn ehangach.

'Mae angen i ni ddylanwadu ar y system i greu newid a sicrhau gwell canlyniadau i gleifion. Mae hyn yn golygu creu awdurdod clinigol o amgylch themâu trawsbynciol; does neb yn mynd i greu hynny i ni. Mae arnom angen llais unedig a gwell perthynas â'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau.' – arweinydd clinigol

- > **Ystyried sut bydd rhwydweithiau clinigol strategol yn rhyngweithio ac yn gweithio'n effeithiol gyda rhaglenni a byrddau cenedlaethol:** Rhaid i'r rhaglenni gwaith cenedlaethol ar gyfer gofal sylfaenol, gofal a gynlluniwyd, gofal brys ac iechyd meddwl, sy'n rhan arall o Weithrediaeth y GIG, gydweithio'n effeithiol â'r SCNs. (Mae hyn yr un mor berthnasol i unrhyw raglenni gwaith eraill sy'n cynnwys cymuned eang o weithwyr proffesiynol ym maes iechyd a gofal sy'n gweithio mewn gwahanol arbenigeddau – e.e. bwrdd y rhaglen diwedd oes.) Nid ar hap y dylai hyn ddigwydd; ni fydd yn digwydd heb fesurau rhagweithiol. Dylai'r Weithrediaeth sefydlu a gwreiddio prosesau sy'n newid diwylliant ac ymddygiad.



'Tua unwaith yr wythnos, rwy'n dod ar draws darnau o waith gan raglenni neu rwydweithiau cenedlaethol eraill sy'n uniongyrchol berthnasol i'm harbenigedd, nad oeddwn yn gwybod dim amdanynt gynt. Mae pobl yn barod iawn i ddod o hyd i ffyrdd o drefnu'r gwaith, ond nid yw'r cysylltiadau'n digwydd yn awtomatig. Y risg yw ein bod yn dyblygu gwaith, neu hyd yn oed yn tynnu i gyfeiriadau gwahanol.' – arweinydd clinigol

- > **Sefydlu fforwm rhwydweithiau clinigol Cymru gyfan:** Dylid cynnal cyfarfodydd chwarterol rheolaidd gyda'r holl arweinwyr clinigol cenedlaethol, rheolwyr rhwydwaith ac arweinwyr y trydydd sector i rannu diweddariadau, gwybodaeth ac arferion gorau. Dylai'r fforwm ystyried lle gallai rhwydweithiau weithio gyda'i gilydd ar brosiectau (h.y. meysydd gwaith trawsbynciol, traws-gyflynol e.e. rhagsefydlu, diwedd oes, gwybodeg). Ym mlwyddyn gyntaf y Weithrediaeth, dylai prosiect peilot gael ei arwain gan grŵp gorchwyl a gorffen. Dylai'r grŵp gael ei lywio gan broses casglu tystiolaeth agored a thryloyw, gan adrodd erbyn haf 2024, gyda chanfyddiadau a gwersi a ddysgwyd o'r broses. Dylai'r fforwm Cymru-gyfan hwn hefyd gytuno (drwy broses negodi) ar set o flaenoriaethau ar gyfer yr SCNs, y gall pob rhwydwaith ymrwymo iddynt.

## Geirfa

IMTP	cynllun tymor canolig integredig
NCF	fframwaith clinigol cenedlaethol
ODN	rhwydwaith cyflawni gweithredol
OECD	Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd
PREMs	mesurau profiad a adroddir gan glaf
PROMs	mesurau canlyniad a adroddir gan glaf
RCAP	colegau brenhinol a chyrrff proffesiynol
SCN	rhwydwaith clinigol strategol

# Y system newydd yn gryno

Mae **Gweithrediaeth GIG Cymru** yn swyddogaeth gynnal genedlaethol newydd, a sefydlwyd ar 1 Ebrill 2023 ac mae'n cynnwys Uned Gyflawni GIG Cymru, Uned Cyflawni Cyllid, Gwelliant Cymru a Chydweithrediaeth Iechyd. Ei brif ddiben yw sbarduno gwelliannau yn ansawdd a diogelwch gofal er mwyn sicrhau canlyniadau gofal iechyd gwell a thecach i bobl Cymru. Y cyfarwyddiaethau newydd yw:

- > Rhwydweithiau a chynllunio (Cydwethrediaeth Iechyd GIG Cymru gynt)
- > Cynllunio a chyflawni ariannol (Uned Cyflawni Ariannol y GIG gynt)
- > Perfformiad a sicrwydd (Uned Gyflawni'r GIG gynt)
- > Gwella ansawdd a diogelwch cleifion (Gwelliant Cymru gynt)

Mae dwy raglen genedlaethol eisoes wedi ymuno â Gweithrediaeth y GIG:

- > Rhaglen iechyd meddwl strategol
- > Rhaglen gofal wedi'i gynllunio

Bydd dwy raglen genedlaethol arall yn ymuno â Gweithrediaeth y GIG yn 2023-24:

- > Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol
- > Rhaglen genedlaethol ar gyfer gofal brys a gofal mewn argyfwng ([chwe nod](#))

Mae'r **fframwaith clinigol cenedlaethol** yn [weledigaeth ar gyfer datblygu gwasanaethau clinigol y GIG yn strategol ac yn lleol](#), gan ddefnyddio egwyddorion gofal iechyd darbodus sy'n seiliedig ar werth gyda data/digidol yn alluogwr allweddol.

Bwriad **datganiadau ansawdd yw nodi sut beth ddylai gwasanaethau clinigol o ansawdd uchel fod**. Dylent helpu i ganolbwyntio'r gwaith o gynllunio gwasanaethau gofal iechyd yn unol â llwybrau clinigol a chaniatáu i'r GIG fonitro canlyniadau a gwella perfformiad. Mae llywodraeth Cymru yn disgwyl i ymddiriedolaethau a byrddau iechyd ymateb i ddatganiadau ansawdd drwy drefniadau cynllunio lleol.

Bydd **rhwydweithiau clinigol strategol cenedlaethol** yn darparu persbectif cenedlaethol sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n cael ei arwain yn glinigol, drwy ddod â chlinigwyr a rhanddeiliaid eraill at ei gilydd i ddatblygu egwyddorion/llwybrau gofal sy'n gyson yn genedlaethol a metrigau ar gyfer monitro, adrodd ac uwchgyfeirio materion lle bo angen. Byddant yn disodli grwpiau gweithredu cenedlaethol a bydd y cyllid sy'n gysylltiedig â'u gwaith yn cael ei ymgorffori yng Ngweithrediaeth y GIG.

Bydd terfyn amser penodol ar gyfer y **rhwydweithiau gweithredu**, a byddant yn cael eu sefydlu gan SCN i ddarparu arweinyddiaeth glinigol a rheolaethol a chefnogi'r gwaith o weithredu llwybrau a/neu fodolau gofal newydd penodol ar draws ffiniau sefydliadol (yn genedlaethol neu'n rhanbarthol). Byddant yn gweithio'n agos gyda sefydliadau cyflawni, a gallant arwain at rwydweithiau cyflawni gweithredol newydd. Bydd rhwydweithiau cyflawni gweithredol yn mabwysiadu dull cyflawni system gyfan gydweithredol i sicrhau bod gwasanaethau diogel ac effeithiol yn cael eu darparu ar draws llwybr y claf.

**Bydd cymunedau ymarfer** yn gweithredu mewn rôl ymgynghorol i'r rhwydwaith clinigol strategol cenedlaethol cyffredinol wrth ddatblygu a rhannu llwybrau, safonau a chanllawiau cyffredinol ar arfer da.

*I gael rhagor o fanylion ewch i [Datblygu rhwydweithiau clinigol i qefnogi gweithredu'r FfCC](#)*

Rhwydweithiau clinigol strategol	Datganiadau ansawdd*
1 Canser	1 <a href="#">Cyflyrau ar y galon</a>
2 Cyflyrau cardiofasgwlaidd	2 <a href="#">Strôc</a>
3 Iechyd plant	3 <a href="#">Gofalu am y rhai sy'n ddifrifol wael</a>
4 Gofal critigol, trawma a meddygaeth frys	4 <a href="#">Canser</a>
5 Diabetes	5 <a href="#">Iechyd menywod a merched</a>
6 Cyflyrau gastroberfeddol	6 <a href="#">Gofal lliniarol a gofal diwedd oes</a>
7 Clefydau heintus	7 <a href="#">Clefydau'r arenau</a>
8 Gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol	8 <a href="#">Clefydau anadlol</a>
9 Cyflyrau cyhyrsgerberbydol ac orthopedeg	9 <a href="#">Cyflyrau Niwrolegol</a>
10 Cyflyrau niwrolegol	10 <a href="#">Clefydau'r Afu</a>
11 Cyflyrau anadlol	11 <a href="#">Diabetes</a>
12 Iechyd Menywod	12 <a href="#">Gwasanaethau fasgwlaidd</a>
	13 <a href="#">Cyflyrau cyhyrsgerberbydol</a>

\*Mae o leiaf tri datganiad ansawdd arall – eiddilwch, trawma mawr a gofal yn yr adrannau achosion brys – wrthi'n cael eu datblygu. Efallai y bydd rhai eraill yn y dyfodol, gan gynnwys un ar gyfer gwasanaethau ailsefydlu. Bydd cynlluniau gweithredu eraill (yn enwedig y rheini sy'n gweithredu yng nghyd-destun y DU – gan gynnwys [cynllun gweithredu clefydau prin 2022–2026](#) a'r [cynllun rhoi a thrawsblannu 2022–2026](#)) hefyd yn rhan bwysig o'r system newydd, a dylai Gweithrediaeth y GIG ystyried sut mae gosod y cynlluniau hyn ochr yn ochr â datganiadau ansawdd a sut bydd y trefniadau gweithredu'n edrych.

#### Enghraifft o'r drefn [Datblygu rhwydweithiau clinigol](#), Gweithrediaeth GIG Cymru

Rhwydwaith strategol	Rhwydwaith gweithredu	Rhwydwaith cyflawni gweithredol (ODN)	Cymuned ymarfer
<b>Canser</b>	Un llwybr canser		
	Gwasanaeth diagnosteg cyflym ar gyfer canser		
<b>Cardiofasgwlaidd</b>	Llwybrau methiant y galon	ODN ar gyfer cyflyrau fasgwlaidd	
	Llwybr syndrom coronaidd aciwt		
	Gwasanaethau strôc rhanbarthol cynhwysfawr	ODN ar gyfer Strôc	
<b>Cyhyrsgerberbydol</b>	Llawdriniaeth orthopedig	ODN ar gyfer orthopedeg	
	Poen parhaus		
<b>Cyflyrau niwrolegol</b>			
<b>Diabetes</b>			
<b>Anadlol</b>			
<b>Cyflyrau iechyd meddwl</b>			
<b>Newyddenedigol a mamolaeth</b>		Gwasanaethau newyddenedigol	
<b>Clefydau heintus</b>			
<b>Gastroberfeddol</b>	Clefyd yr afu		
	Clefyd llid y coluddyn		
<b>Gofal critigol, trawma a meddygaeth frys</b>	Gofal critigol	Trawma mawr	
<b>Iechyd Menywod</b>			
<b>Iechyd plant</b>	Clefydau prin		

# Sut y daethom i'r fan hon?

Cyhoeddwyd y fframwaith clinigol cenedlaethol (NCF) ym mis Mawrth 2021. Roedd hyn yn rhan o ymrwymiad Cymru Iachach, cynllun hirdymor llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yn 2018, a oedd ei hun yn ymateb y llywodraeth i Chwyldro o'r Tu Mewn, adroddiad yr adolygiad seneddol 2017 ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru – darn o waith a oedd wedi'i sbarduno'n rhannol gan adolygiad 2016 Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd o ansawdd gofal iechyd i Gymru, a ganfu'r canlynol: 'er bod annibyniaeth leol ac arloesi'n cael eu hannog, nid yw'n ymddangos bod gan [byrddau iechyd] ddigon o gapasiti sefydliadol a thechnegol i sbarduno arloesi ystyrion a gwella ansawdd. Nawr, mae angen **llaw arweiniol ganolog gryfach** i arwain y ffordd.'

Pwrpas y Fframwaith Clinigol Cenedlaethol yw 'nodi dull strategol y [llywodraeth] o ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol o ansawdd uchel sy'n diwallu anghenion pobl ledled Cymru, [gan gynnwys] sut dylid darparu gwasanaethau arbenigol a gwasanaethau mewn ysbytai, a'r sgiliau a'r technolegau sydd eu hangen i'w cefnogi.' Mae'n nodi pedwar galluogwr allweddol: rhwydweithiau clinigol, rhaglenni cenedlaethol, strategaeth gweithlu a strategaeth ddigidol.

<b>Chwe 2016</b>	<b>2017-2018</b>	<b>Mehef 2018</b>	<b>Mawrth 2021</b>	<b>Ebrill 2023</b>
Adolygiad yr OECD	Adroddiad yr adolygiad Seneddol	Cymru Iachach: cynllun hirdymor	Fframwaith clinigol cenedlaethol	Sefydlu Gweithrediaeth y GIG



Pandemig COVID-19  
**Mawrth 2020**

Rhwng mis Mawrth 2021 a mis Mawrth 2023, dechreuodd llywodraeth Cymru a Chydweithrediaeth y GIG weithio i sefydlu'r Gweithrediaeth newydd i gyflawni'r Fframwaith Clinigol Cenedlaethol. Yn y cyfamser, dechreuodd arweinwyr clinigol a grwpiau gweithredu weithio ar gyfres o ddatganiadau ansawdd a fyddai'n sail i waith y rhwydweithiau clinigol newydd.

Yn gynnar yn 2023, cyhoeddodd Cydweithrediaeth y GIG set o argymhellion a oedd yn canolbwyntio ar sefydlu cyfres gyson newydd o rwydweithiau clinigol strategol cenedlaethol. Ar 1 Ebrill 2023, daeth y Weithrediaeth i fodolaeth. Ar 18 Gorffennaf 2023, ysgrifennodd dirprwy brif weithredwr GIG Cymru at gyfarwyddwr cenedlaethol, rhwydweithiau ac adran gynllunio Gweithrediaeth y GIG, i gadarnhau'n ffurfiol y dyraniadau ariannol i gefnogi'r rhwydweithiau, a hefyd i amlinellu'r gwaith cysylltiedig o ddirprwyo atebolrwydd. Roedd hyn yn golygu bod modd dechrau proses newid sefydliadol gyda staff y GIG ac arweinwyr clinigol tan fis Awst.

Mae rolau arweinwyr clinigol cenedlaethol newydd yn debygol o edrych yn wahanol iawn i fersiynau blaenorol. Bydd disgwyl iddynt estyn allan at y gymuned glinigol a phroffesiynol ehangach ac ymgysylltu â chymunedau sydd â phrofiad byw, yn ogystal â gweithio ar draws SCNs i ledaenu dysgu a chydweithio ar flaenoriaethau cyffredin. Bydd trefniadau a oedd yn bodoli gynt (grwpiau gweithredu, byrddau rhwydwaith ac ati) yn parhau i redeg nes bydd yr SCNs newydd wedi'u sefydlu'n ffurfiol. Dylai'r Weithrediaeth ddarparu mynediad at hyfforddiant, mabwysiadu canllawiau arfer da a chynnig cymorth busnes a phrosiect i bob rhwydwaith.

'Rôl rhwydweithiau clinigol yn y fframwaith hwn yw hwyluso'r broses o ddod â'r holl gymunedau clinigol, partneriaid y GIG a'n cleifion at ei gilydd i gyflwyno'r llwybr cenedlaethol lefel uchel ar gyfer y gwasanaeth neu'r cyflwr perthnasol ... Dan arweiniad cyfres o ddatganiadau ansawdd, bydd rhwydweithiau clinigol yn creu consensws ar lwybrau clinigol cynhwysfawr o werth uchel a sylfaenwyd ar ymarfer a chydgyhyrchu sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Ni fydd y rhwydweithiau'n dyblygu'r safonau tra arbenigol penodol a bennir gan gyrrff proffesiynol, ond yn eu cymhwyso a'u cyfuno â gofynion ehangach y llwybr.

'Bydd y rhwydwaith yn chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o fonitro'r llwybrau a data ar ganlyniadau i gefnogi trefniadau meincnodi ac atebolrwydd lleol. Bydd angen gwneud hyn i sicrhau bod y ddarpariaeth leol yn bodloni'r disgwyliadau o ran safonau a chanlyniadau a nodir yn y llwybrau cenedlaethol, ac i annog arloesi, gwella ansawdd a lledaenu arferion da.

'Bydd datblygu rhwydweithiau clinigol sydd yn ymgorffori cynrychiolaeth eang o weithwyr proffesiynol ym maes iechyd a gofal yn gofyn am gyfeirio at hynny yn eu swydd-ddisgrifiadau. Bydd angen caniatáu amser sylweddol ar gyfer gwaith pwysig mewn perthynas â chynllunio a gwella gwasanaethau.' – Fframwaith Clinigol Cenedlaethol: System Iechyd a Gofal sy'n Dysgu

Rhaid i'r Weithrediaeth newydd weithio gyda llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill yn y sector i gyflawni'r strategaethau a'r cynlluniau gweithredu presennol yn llawn, gan gynnwys:

- > *Cymru iachach: cynllun hirdymor ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol*
- > y strategaeth gweithlu iechyd a gofal
- > y rhaglen i drawsnewid a moderneiddio gofal a gynlluniwyd
- > Y cynllun gweithredu cenedlaethol ar gyfer y gweithlu.

Dylai'r Weithrediaeth weithio mewn partneriaeth â llywodraeth Cymru i adnewyddu'r weledigaeth genedlaethol ar gyfer dyfodol iechyd a gofal yng Nghymru. Mae arnom angen naratif a chyfeiriad clir ar gyfer y gwasanaeth iechyd yn seiliedig ar gydweithio rhanbarthol a thrawsffiniol, a dylai hyn gael ei gyd-gynhyrchu a'i arddel gan bob rhan o'r system iechyd a gofal.

Mae llywodraeth Cymru wedi sefydlu grŵp cynghori gweinidogol ar atebolrwydd GIG Cymru a fydd yn myfyrio ar y strwythurau llywodraethu presennol yn GIG Cymru. Gofynnir i'r grŵp annibynnol archwilio sut mae sbarduno gwelliannau mewn perfformiad a chanlyniadau drwy atebolrwydd cliriach a chadarnach, drwy drefniadau uwchgyfeirio a thrwy ddarparu cymorth, arweiniad a chymorth ychwanegol i'r gwasanaeth. Disgwylir i'r grŵp adrodd erbyn 31 Mawrth 2024.

# Felly beth nesaf?

Mae'r gyfran gychwynnol o SCNs i fod i 'fynd yn fyw' ar 1 Hydref 2023, a dylai eraill fod ar waith yn ystod hanner cyntaf 2024. Blaenoriaeth y rhwydweithiau hyn fydd i feithrin perthynas waith adeiladol gyda'r canlynol:

- > cymunedau clinigol ehangach (gan gynnwys colegau brenhinol a chymdeithasau arbenigol)
- > cyrff trydydd sector, grwpiau cleifion a sefydliadau ar lawr gwlad
- > timau arwain byrddau iechyd (e.e. cyfarwyddwyr meddygol, cynllunio, iechyd y cyhoedd)
- > byrddau partneriaeth rhanbarthol
- > awdurdodau lleol a byrddau gwasanaethau cyhoeddus.

## Mewn sawl ffordd, bydd llwyddiant SCNs i weithredu newid yn dibynnu'n bennaf ar ba mor effeithiol yw'r cysylltiadau hyn.

Ar ôl cam cychwynnol o nodi ac ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol, dylai SCNs nodi eu cynlluniau ar gyfer eu blwyddyn gyntaf, y 3–5 mlynedd nesaf, a lle maent am fod mewn 10 mlynedd. Gan ystyried datganiadau ansawdd (lle maent yn bodoli) fel eu llinell sylfaen, dylai SCNs ddatblygu cynlluniau gweithredu drwy weithio gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid o bob rhan o'r GIG, y llywodraeth leol, cymunedau clinigol ehangach a'r trydydd sector.

Er enghraifft:

- > o ran **darparu gwasanaethau**, mae llywodraeth Cymru angen i fyrddau iechyd ddatblygu cynlluniau tymor canolig integredig. Fel arfer, caiff y rhain eu hysgrifennu yn ystod yr hydref i'w cymeradwyo yn y gwanwyn canlynol. Dylai SCNs ymgysylltu â chyfarwyddwyr cynllunio o'r haf ymlaen i sicrhau bod blaenoriaethau cenedlaethol yn cael eu hadlewyrchu mewn cynlluniau lleol.
- > o ran **anghydraddoldebau iechyd**, dylai SCNs weithio gyda'r trydydd sector a sefydliadau ar lawr gwlad i ymgysylltu â grwpiau anodd eu cyrraedd a sicrhau llais amrywiol yn eu gwaith.
- > o ran **ddata a gwybodaeth**, dylai SCNs weithio'n agos gydag Iechyd a Gofal Digidol Cymru ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru.
- > o ran **safonau gwasanaeth, archwiliadau ac achredu**, dylai SCNs weithio gyda'r colegau brenhinol a chyrrff gosod safonau eraill i sicrhau eu bod yn dylunio gwasanaethau a llwybrau o ansawdd uchel.
- > o ran **arloesi a syniadau newydd**, dylai SCNs weithio gyda chynifer o bartneriaid â phosibl i ddatblygu casgliad o arferion gorau y gellir eu rhannu ar draws rhwydweithiau ac arbenigeddau.

'Mae llawer i'w wneud eto cyn i systemau gydnabod nad oes ganddynt yr atebion i lawer o'r problemau y maent yn eu hwynebu ac y gallai gweithio gyda'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu fod yn rhan o'r ateb ... Bydd gwasanaethau'n fwy effeithiol, yn fwy effeithlon ac yn fwy diogel os caiff lleisiau defnyddwyr eu cynnwys yn y ffordd y cânt eu cynllunio, eu monitro a'u gwerthuso.

'Os ydych chi eisiau deall pam mae pobl yn aml yn dychwelyd i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys, pam nad yw cydlynu gofal yn gweithio neu pam mae pobl yn cael trafferth cael gafael ar wasanaethau, mae'r ateb yn amlwg – ewch i ofyn iddyn nhw am help i gynllunio gwasanaethau a fydd yn diwallu eu hanghenion.' – [The King's Fund](#)

# Rôl rhwydweithiau

Wedi'i addasu o ymchwil a gyhoeddwyd gan The King's Fund, credwn y dylai SCNs ystyried canolbwyntio ar y pum gweithgaredd canlynol i gefnogi cyrff cyflawni lleol (h.y. byrddau/ymddiriedolaethau iechyd) a llunwyr polisi cenedlaethol (h.y. llywodraeth Cymru) i wella canlyniadau:

- > dod â rhanddeiliaid at ei gilydd ar gyfer deialog a chydweithio
- > dylanwadu ar newid a phontio'r bwlch rhwng blaenoriaethau lleol a chenedlaethol
- > cynnal arbenigedd ar lefel ranbarthol drwy gymunedau ymarfer ehangach
- > cymell ac ysgogi canlyniadau y cytunwyd arnynt gan ddefnyddio technegau cymell tawel a sgiliau arwain
- > monitro a gwerthuso canlyniadau drwy weithio mewn partneriaeth.

## Y trydydd sector fel partneriaid yn y system

Rydym wedi nodi tair egwyddor allweddol, wedi'u haddasu o waith a wnaed gan The King's Fund:

- > Mae gweithio mewn partneriaeth mewn ffordd fwy cyfartal yn seiliedig ar berthnasoedd. Mae hyn yn ymwneud â meithrin dealltwriaeth, rhwydweithiau a chysylltiadau a all gefnogi gweithio system bellach.
- > Nid oes man cychwyn delfrydol: mae angen i ni wneud y ffyrdd presennol o weithio yn fwy cynhwysol. Mae hyn yn golygu gwneud newidiadau bach sy'n arwain at newid mwy systemig yn seiliedig ar ymddiriedaeth.
- > Mae hyn yn galw am weithredu ac arweinyddiaeth bendant gan bob parti. Dylai'r trydydd sector fabwysiadu dull cydweithredol o weithio, nid un gwrthdrawiadol. Dylai arweinwyr systemau iechyd fwrw iddi a chefnogi'r trydydd sector a'u hystyried yn bartneriaid gwerthfawr.

# Nodi, ymrwymo, cysylltu: Pecyn cymorth ar gyfer gweithio mewn partneriaeth

Mae'r pecyn cymorth hwn wedi cael ei greu i gefnogi **grwpiau arwain** o fewn Gweithrediaeth y GIG i weithio mewn partneriaeth â chleifion, clinigwyr, y rheini sydd â phrofiad uniongyrchol a'r trydydd sector ehangach.

**Rydym yn croesawu adborth ar y pecyn cymorth hwn, yn ogystal â gwybodaeth am unrhyw rwystrau mewn perthynas ag ymgysylltu.** Cysylltwch â ni yn [Wales@rcp.ac.uk](mailto:Wales@rcp.ac.uk).

Yn ogystal â cheisio arbenigedd gan grwpiau ac elusennau cenedlaethol ar gyfer cyflyrau iechyd penodol, dylai grwpiau arwain hefyd ofyn am fewnbwn gan gyrrff ar lawr gwlad sy'n cynrychioli cymunedau a ymleiddiwyd a nodweddiad gwarchoddedig. Bydd hyn yn eu helpu i gyflawni amcanion cydraddoldeb y datganiad ansawdd.

Isod, rydym wedi darparu cwestiynau rhestr wirio, ac yna rhestr o sefydliadau defnyddiol

Nid ydym yn disgwyl y byddwch yn gallu ateb pob cwestiwn yn y pecyn hwn heb gymorth, a dyna pam rydym wedi darparu rhestr ddefnyddiol o sefydliadau a allai eich helpu i ddysgu mwy am sut gallai eich penderfyniadau effeithio ar gleifion a grwpiau sydd ar y cyrion. Nhw yw'r arbenigwyr yn eu bywydau eu hunain, a dyna pam ei bod yn bwysig siarad â nhw.

Rydym hefyd yn eich annog i gysylltu â ni gydag unrhyw gwestiynau er mwyn i ni allu eich cyfeirio at y lle cywir: [Wales@rcp.ac.uk](mailto:Wales@rcp.ac.uk).

## Sut i ddefnyddio'r pecyn cymorth hwn

Wrth ddechrau unrhyw ddarn o waith, gofynnwch y cwestiynau isod i chi'ch hun. Ni fydd pob un yn berthnasol i bob prosiect neu raglen, ond byddem yn annog pob grŵp arwain i gydweithio (arweinwyr clinigol, rheolwyr rhwydwaith a chynrychiolwyr trydydd sector) i fyfrio ar y cwestiynau hyn cyn dylunio unrhyw brosiect neu gynllun cyfathrebu.

Dylid defnyddio'r pecyn cymorth hwn i lywio'r gwaith canlynol:

- > cyfranogiad y trydydd sector a chleifion yng ngwaith Gweithrediaeth y GIG
- > ymgysylltu clinigol â gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd a gofal a chymunedau ymarfer.

Rydym hefyd yn argymhell defnyddio'r pecyn cymorth hwn:

- > wrth sefydlu arweinwyr clinigol a rheolwyr rhwydwaith
- > wrth fapio rhanddeiliaid allweddol ar gyfer pob darn o waith
- > fel rhan o'r mandad Gweithredol blynyddol
- > yn rhan annatod o brosesau a chyfathrebu arferol.



# Gosod gweledigaeth ar gyfer eich rhwydwaith

Pe gallech gyflawni tri pheth yn y rôl hon dros y 3 blynedd nesaf, beth fydden nhw?

Beth yw eich blaenoriaeth gyntaf yn y swydd?

Sut ydych chi'n meddwl y byddwch chi'n ymdopi â'r cymhlethdodau gwleidyddol yn y rôl hon?

Beth mae cydgynhyrchu yn ei olygu i chi? Beth am ofal iechyd sy'n seiliedig ar werth?

## Dechrau ar brosiect newydd

Ydych chi wedi nodi'r prif elusennau sy'n gweithio yn eich ardal chi?

Ydych chi wedi ystyried rôl mudiadau llawr gwlad?

A oes clymblaid o elusennau eisoes yn gweithio yn y maes hwn (e.e. [Cynghrair Canser Cymru](#))?

Ydych chi wedi siarad â rhaglenni Gweithrediaeth eraill y GIG (gofal sylfaenol, iechyd meddwl, gofal a gynlluniwyd, gofal brys), byrddau (ee diwedd oes) a rhwydweithiau i nodi themâu cyffredin?

A oes rôl i'ch rhwydweithiau cyflawni gweithredol?

Ydych chi wedi cyhoeddi cais am dystiolaeth ar hyb ar-lein?

A oes rôl i ddiwydiant neu gymdeithasau masnach yn y darn hwn o waith?

A oes rôl i sefydliadau academiaidd a chyrrff ymchwil (gan gynnwys [Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru](#)) i'ch helpu i gasglu dystiolaeth?

Ydych chi wedi ystyried pa gymorth data a digidol y bydd ei angen arnoch?

Ydych chi wedi ystyried a ddylai gofal cymdeithasol gymryd rhan yn y gwaith hwn, a sut byddent yn gwneud hynny?

A oes rôl i fyrddau partneriaeth rhanbarthol yn y darn hwn o waith?

Sut byddwch chi'n gwerthuso'r gwaith? A oes angen i chi gasglu data sylfaenol cyn rhoi newid ar waith? Ydych chi wedi ystyried siarad â [Thechnoleg Iechyd Cymru](#)?

## Canolbwyntio ar y claf

Ydych chi wedi siarad â [Llais](#), [Dewis](#), [infoengine](#) a [CGGC](#)?

Ydych chi wedi ystyried a allai paneli cleifion lleol roi cyngor ar weithredu?

Ydych chi wedi ystyried cynnal sesiynau coffi a chofnodi wyneb yn wyneb?

- Ydych chi wedi ystyried cynnal gweithdai neu weminarau ar-lein?
- Ydych chi wedi ystyried cyhoeddi holiadur fel rhan o alwad am dystiolaeth?
- Ydych chi wedi ystyried effaith allgáu digidol ar eich carfan o gleifion?
- Ydych chi wedi ystyried pa effaith y bydd y gwaith hwn yn ei chael ar ofalwyr a theuluoedd?
- Ydych chi wedi ystyried pa effaith y bydd y gwaith hwn yn ei chael ar leihau anghydraddoldebau iechyd?
- Ydych chi wedi ystyried a ddylid cynnal asesiad o'r effaith ar iechyd?
- A fyddai asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb yn ddefnyddiol?
- Ydych chi wedi ystyried pa effaith y bydd y gwaith hwn yn ei chael ar gymunedau Cymraeg eu hiaith?
- Ydych chi wedi ystyried effaith y gwaith hwn ar bobl sy'n byw mewn ardaloedd anghysbell a gwledig?

## Gweithio gyda chydweithwyr clin igol

- Ydych chi wedi siarad â'r coleg(au) brenhinol neu'r cyrff proffesiynol perthnasol?
- Ydych chi wedi nodi unrhyw gymdeithasau arbenigol a allai fod â diddordeb?
- Ydych chi wedi nodi arweinwyr clinigol mewn amrywiaeth o grwpiau proffesiynol i arwain newid lleol?
- Sut byddwch chi'n dod â'r gymuned ehangach o weithwyr proffesiynol ym maes iechyd a gofal (gweithiwr proffesiynol perthynol i iechyd, gofal cymdeithasol, gofal sylfaenol ac ati) yng Nghymru gyda chi ar y daith hon?

## Sicrhau ei fod yn digwydd

- Ydych chi wedi ystyried cynnal gweithdai neu fforymau proffesiynol lleol neu ranbarthol?
- Ydych chi wedi ystyried sut y byddwch chi'n galw cyrff cyflawni'r GIG i gyfrif?
- Ydych chi'n wedi ystyried sut y byddwch chi'n galw cyrff cyflawni'r GIG i gyfrif?
- Ydych chi wedi siarad ag aelodau allweddol o'r bwrdd iechyd a chyfarwyddwyr clinigol?
- Ydych chi wedi siarad â thimau cynllunio byrddau iechyd?
- Ydych chi wedi ystyried a yw dull rhanbarthol yn well (neu hyd yn oed yn bosibl)?
- Sut ydych chi'n bwriadu casglu a rhannu tystiolaeth a gwybodaeth amlbroffesiynol?
- Sut y byddwch yn sicrhau bod arferion da ac arloesi yn cael eu lledaenu?

# Adnoddau

Mae [Confederasiwn GIG Cymru](#) yn gorff aelodaeth cenedlaethol sy'n cynrychioli'r saith bwrdd iechyd lleol, tair o ymddiriedolaeth'r GIG, Addysg a Gwella Iechyd Cymru, ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru. Dilynwch nhw ar [@WelshConfed](#).

Mae Confederasiwn GIG Cymru yn dod â [Chynghrair Iechyd a Lles](#) (HAWA) at ei gilydd, sef grŵp o dros 70 o sefydliadau o bob rhan o'r GIG, y llywodraeth leol, gofal iechyd, gofal cymdeithasol, sefydliadau cleifion a'r proffesiynau. Mae gan y Gynghrair Iechyd a Lles is-grwpiau ar anghydraddoldebau iechyd, iechyd meddwl, gofal cymdeithasol, COVID hir, y Fframwaith Clinigol Cenedlaethol, gordewdra, a hinsawdd a chynaliadwyedd.

[Llais](#) yw'r corff statudol annibynnol sy'n cynrychioli llais cleifion a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2023 i ddisodli'r saith cyngor iechyd cymuned. Dilynwch nhw ar [@LlaisCymru](#).

[Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru \(WCVA\)](#) yw'r corff aelodaeth cenedlaethol ar gyfer mudiadau gwirfoddol yng Nghymru. Mae'n dosbarthu cyllid, yn cefnogi cyngorau gwirfoddol lleol ac yn darparu rhwydwaith o gefnogaeth i filoedd o fudiadau gwirfoddol. Dilynwch nhw ar [@CGGC](#).

Nod [Dewis Cymru](#) yw rhoi cyngor am les, yn ogystal â gwybodaeth am dros 6,000 o wasanaethau lleol a chenedlaethol. Dilynwch nhw ar [@dewiscymru](#).

Mae [infoengine](#) yn gyfeiriadur o wasanaethau trydydd sector (gwirfoddol a chymunedol) sy'n darparu gwybodaeth a chefnogaeth i bobl yng Nghymru. Fe'i darperir gan Cefnogi Trydydd Sector Cymru, partneriaeth o Gynghorau Gwirfoddol Sirol a CGGC. Dilynwch nhw ar [@infoengine](#).

## Cysylltu â ni

Rydym yn annog arweinwyr clinigol, rheolwyr rhaglenni a rhwydweithiau, ac unrhyw staff gweithredol eraill yn GIG Cymru, i gysylltu â ni am gyngor neu gymorth wrth ddefnyddio'r pecyn cymorth hwn.

Rhowch wybod i ni sut gallwn ni helpu: [Wales@rcp.ac.uk](mailto:Wales@rcp.ac.uk).

Coleg Brenhinol y Meddygon  
The Maltings, Stryd East Tyndall Street  
Caerdydd | Cardiff CF24 5EZ

Wales@rcp.org.uk  
 @RCPWales  
rcp.org.uk/Wales



Royal College  
of Physicians

Coleg Brenhinol  
y Meddygon (Cymru)